# Cofnodi Cacwn: Cymru

## Cylchlythyr Gorffennaf 2021




## Croeso i'n cylchlythyr cyntaf

Gobeithio eich bod yn iach a diolch i chi am ddangos diddordeb mewn Cofnodi Cacwn Cymru. Mae'r misoedd cyntaf yma wedi bod yn eithriadol o brysur, er gwaethaf y ffaith bod cyfyngiadau'r Coronafirws yn dal mewn grym. Mae hi'n ymddangos bod cariad a pharch pobl tuag at fyd natur yn parhau! Rydw i'n falch iawn o weld cymaint o frwdfrydedd fel hyn ar gychwyn ein project!

## Beth yw Cefnogi Cacwn Cymru?

Project tair-blynedd yw Cefnogi Cacwn Cymru (CCC) a roir ar waith gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn gydag ariannu hael gan Sefydliad Moondance. Ein gweledigaeth yw gwella dosbarthiad ac amlder data am gacwn yng Nghymru.

Gobeithiwn wireddu hyn drwy:

- hyfforddi staff a gwirfoddolwyr ledled y sector cadwraeth a chofnodi cymunedau wrth adnabod cacwn.
- greu rhwydwaith o drawsluniau BeeWalk ledled Cymru
- lenwi bylchau mewn gwybodaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gydag ychydig o BeeWalks a chofnodion cacwn.



*Partneriaeth gyda Buglife i hyfforddi gwirfoddolwyr sut i adnabod cacwn yn Nedd Port Talbot*



Gwirfoddolwyr a staff Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro!

## *Yr hanes hyd yma …*


Ers cychwyn y project ym mis Chwefror eleni, rydw i wedi cyflwyno cyrsiau hyfforddi ar-lein. I ddechrau, roedd hyn yn gryn her ond bu'n ddull da o gyrraedd cynulleidfaoedd mwy eang. Mynychodd dros 100 o bobl hyfforddiant adnabod a BeeWalk drwy gyfrwng ein Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol yng Nghymru, gyda dyddiau maes yn dilyn ym Mhowys a gogledd Cymru lle mae bylchau penodol yn ein data am gacwn. Rydym hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru. Gweithiwyd mewn partneriaeth gyda'r project Lefelau Byw a gyda Buglife yn Nedd Port Talbot er mwyn hyfforddi grwpiau o wirfoddolwyr ymroddedig i adnabod a monitro cacwn. Cafwyd cryn fwynhad a gobeithiwn y bydd y gwirfoddolwyr yn gallu defnyddio eu medrau i sicrhau cyfraniad arbennig i gofnodi cacwn yn yr ardaloedd penodol hynny. Diolch i bawb fu'n cymryd rhan gyda'r projectau hyn.

Mae tîm o staff a gwirfoddolwyr brwdfrydig Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro wedi mwynhau cyfres o sesiynau hyfforddiant ar-lein a dyddiau maes. Sefydlwyd nifer o drawsluniau BeeWalk newydd o fewn y Parc a gobeithiwn barhau â hyn ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog y flwyddyn nesaf.

# Y camau nesaf …

A hithau'n fis Awst, byddwn yn darparu dyddiau maes i'r grwpiau yr ydym wedi gweithio gyda nhw yn ystod y gwanwyn a'r haf – yn cynnwys teithiau i Bowys, Conwy, Nedd Port Talbot a dau ddiwrnod olaf ar Lefelau Gwent i gwblhau ein partneriaeth gyda'r project Lefelau Byw. Byddwn yn cydweithio gyda Bex Cartwright, rheolwr Adfer y Gardwenynen Fain yn y tair ardal allweddol lle mae'r rhywogaeth hon yn goroesi yng Nghymru – Castell Martin (Sir Benfro), Pen-y-bont ar Ogwr a Lefelau Gwent. Rydym wedi dod o hyd i'r gardwenynen fain a'r gardwenynen frown resog eleni yn ystod ein dyddiau maes a byddwn yn parhau i chwilio am rai o rywogaethau mwyaf prin Cymru yn ogystal â hyfforddi gwirfoddolwyr i adnabod y rhai mwyaf cyffredin!

Byddwn yn treulio'r gaeaf yn gwerthuso ein tymor cyntaf a llunio cynlluniau ar gyfer 2022. Y prif ganolbwynt o ran cofnodi fydd canolbarth a gogledd Cymru felly os ydych chi yn yr ardaloedd yma ac yn gwybod am unrhyw grwpiau neu gyrff a hoffai gymryd rhan mewn cofnodi cacwn neu drefnu taith BeeWalk, cofiwch adael i ni wybod!



***Gwryw cacynen y rhos (Bombus jonellus), gogledd Cymru. Richard Gallon***

Hoffwn ddiolch yn bersonol i bawb sydd wedi mynegi diddordeb yn ein project a'r llu o unigolion sydd wedi cysylltu â mi i gymryd rhan neu ddysgu mwy! Yn anffodus dydw i ddim wedi gallu ymdrin â'r holl geisiadau unigol yma fel y byddwn wedi dymuno ei wneud. Mae natur y project yn golygu fy mod yn gweithio'n aml gyda chyrff eraill neu grwpiau gwirfoddolwyr wedi eu sefydlu. I geisio ateb y diffyg hwn hoffwn gynnig cyfres o sgyrsiau ar-lein dros y gaeaf, yn enwedig ar gyfer fy rhestr gyswllt o unigolion brwdfrydig a grwpiau cymunedol.



Astudiaethau awyr agored yn Swydd Faesyfed gyda Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth Powys a Bannau Brycheiniog (GGB)

## Dyddiadau ar gyfer sgyrsiau cacwn yn ystod y gaeaf:


*Dydd Mawrth 12 Hydref 2021 (6.30yh-8yh)* – 'Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn – ei gwaith yng Nghymru'

*Dydd Mawrth 16 Tachwedd 2021 (6.30yh-8yh)* – 'Cyflwyniad i gacwn (beth ydyn nhw, beth maen nhw'n ei wneud a pham eu bod yn arbennig!)'

*Dydd Mawrth 1 Chwefror 2022 (6.30yh-8yh)* – 'Cyflwyniad i adnabod cacwn: yr wyth rhywogaeth gyffredin'.

*Dydd Mawrth 1 Mawrth 2022 (6.30yh-8yh)* - 'Cyflwyniad i gofnodi cacwn a sefydlu taith BeeWalk'.

Anfonir cysylltau Zoom at bawb ar y rhestr gyswllt wythnos cyn y cyfarfod. Does dim angen archebu lle!



***Cardwenynen fain (Bombus sylvarum) ar ytbysen barhaus, Gwlyptiroedd Casnewydd***

**Clare Flynn, Swyddog Project Cofnodi Cacwn Cymru**

**Clare.Flynn@bumblebeeconservation.org**